Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 21 Hydref 2015

Rhif Union: 01824706141

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 27 HYDREF 2015** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 3 - 4)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Medi 2015 (copi wedi'i amgáu).

**5 CYNNIG I GAU YSGOL LLANFAIR DC AC YSGOL PENTRECELYN O 31 AWST 2017, AC I ESGOBAETH LLANELWY AGOR YSGOL GYNRADD WIRFODDOL A REOLIR NEWYDD FFRWD DEUOL CATEGORI 2, YR EGLWYS YNG NGHYMRU O 1 MEDI, 2017** (Tudalennau 13 - 208)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg (copi ynghlwm) yn cyflwyno'r adroddiad gwrthwynebiad i'w ystyried a gofyn i'r Cabinet gymeradwyo gweithredu'r cynnig.

**6 BWRIAD I GAU YSGOL LLANBEDR DC** (Tudalennau 209 - 376)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg, yn cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol a gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Llanbedr ar 31 Awst 2016 a throsglwyddo'r disgyblion presennol i Ysgol Borthyn, Rhuthun yn amodol ar ddewis y rhieni.

**7 ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL DRAFFT CYNLLUN DATBLYGU LLEOL 2015: DIFFYG CYFLENWAD 5-MLYNEDD O DIR SY'N BAROD I'W DDATBLYGU AR GYFER TAI** (Tudalennau 377 - 452)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus (copi ynghlwm) yn cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol drafft y CDLl ac yn amlygu'r diffyg cyflenwad 5-mlynedd o dir sy'n barod i'w ddatblygu ar gyfer tai.

**8 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 453 - 470)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi ynghlwm) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd ar strategaeth y gyllideb a gytunwyd arni.

**9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 471 - 474)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd wedi'i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Julian Thompson-Hill
Eryl Williams
Bobby Feeley
Hugh Irving
Huw Jones
Barbara Smith
David Smith

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned